



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 14.5.20
Drwy WebEx Conferencing

Yn bresennol:

Mr M Polin	Cadeirydd
Yr Athro N Callow	Aelod Annibynnol ~ Prifysgol
Cyng C Carlisle	Aelod Annibynnol
Mr J Cunliffe	Aelod Annibynnol
Mr S Dean	Prif Weithredwr Dros Dro
Mrs M Edwards	Aelod Cyswllt, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Mr G Evans	Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Dr D Fearnley	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
Mrs S Green	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Mrs G Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy Brif Weithredwr
Mrs S Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid
Mrs J Hughes	Aelod Annibynnol
Cyng M Hughes	Aelod Annibynnol
Mrs Ff Johnstone	Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin (dros Dr Chris Stockport)
Mr E Jones	Aelod Annibynnol
Mrs L Meadows	Aelod Annibynnol
Miss T Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Mrs L Reid	Is-gadeirydd
Ms D Sharp	Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro
Mrs L Singleton	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Mr A Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Mrs H Wilkinson	Aelod Annibynnol
Mr M Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad
Mr Ff Williams	Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Yn bresennol:

Mrs K Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol (ar gyfer cofnodion)
Mrs M W Jones	Cynghorydd y Bwrdd
Mrs L Roberts	Rheolwr Gweithredol Busnes (Swyddfa'r Cadeirydd)

Eitem ar yr Agenda	Gweithredugan
20/45 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd	
20/45.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau bod y cyfarfod yn cael ei recordio gyda'r bwriad o brofi rhannu'r recordiad o fewn y parth cyhoeddus. Roedd Swyddogion hefyd yn profi opsiynau ffrydio ar gyfer cyfarfodydd dilynol. Yna fe gyflwynodd yr aelodau eu hunain yn ddwyieithog.	

20/45.2 Nododd y Cadeirydd fod y Gweinidog wedi cymeradwyo ymestyn cyfnod Mr Ffrancon Williams fel Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) am 12 mis cyn gwneud newidiadau i'r Rheoliadau er mwyn caniatáu parhad. Yn ogystal, mae'r SRG wedi cefnogi estyniad o 12 mis i gyfnod Mr Gwilym Ellis-Evans fel Is-gadeirydd SRG. 20/45.3 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi ymgymryd â Gweithred y Cadeirydd i gymeradwyo achosion busnes ar gyfer caffael ac adeiladu'r tri ysbyty dros dro ym Mangor, Llandudno a Glannau Dyfrdwy ac i gymeradwyo SBAR ar ddarpariaeth is adeiledd ocsigen pibelllog. Roedd yr Is-Gadeirydd wedi cymeradwyo'r gwaith papur er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â rôl Mr Polin gyda'r grŵp ysbyty dros dro. 20/45.4 Nododd y Cadeirydd yr ymgymeryd â Gweithred y Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i gymeradwyo gwobrau cytundeb ar gyfer cytundebau gwasanaethau a rheoli ar gyfer gwasanaethau Electrofforesis a Haemoglobin wedi'i Glyceiddio. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd fod pryder a fynegwyd gan un o'r Aelodau Annibynnol ynghylch hyd y contract wedi'i ddatrys y tu allan i'r cyfarfod. 20/45.5 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi ymgymryd â Gweithred y Cadeirydd ynghylch setlo hawliad gwerth uchel gan roi caniatâd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyswllt dros dro Sicrwydd Ansawdd a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelwch a Phrofiad Cleifion gyfarwyddo cyngor trwy'r Rheolwr Hawliadau i ddechrau trafodaeth cyfarfod setliad ar y cyd. 20/45.6 Yn olaf, nododd y Cadeirydd fod y sefydliad bellach yn gweithio i ddychwelyd at sefyllfa busnes fel yr arfer, cyn belled ag y bo modd, wrth gynnal gwaith penodol Covid-19 hefyd a bod is-grŵp o'r Cabinet wedi cymryd cyfrifoldeb am archwilio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwaith hwn.	
20/46 Ymddiheuriadau am absenoldeb Mr Andy Roach, Dr Chris Stockport	
20/47 Datganiadau o ddiddordeb Datganodd y Prif Weithredwr Dros Dro ddiddordeb cyffredinol fod ei rôl gwreiddiol yn parhau gyda Llywodraeth Cymru.	
20/48 Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 15.4.20 er cywirdeb ac adolygu'r Cofnod o Weithredoedd Cryno 20/48.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir yn amodol ar gynnwys bod Miss T Owen wedi ymddiheuro. 20/48.2 Diweddarwyd y cofnod o weithredoedd cryno.	

20/49 Diweddariad Covid-19 20/49.1 Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol drosolwg a diweddariad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo yn ymwneud ag ymateb i'r pandemig Covid-19. Fe atgoffodd yr aelodau bod gwybodaeth fanwl yn cael ei ddarparu i gyfarfodydd cabinet, gwybodaeth i'r Bwrdd a grwpiau eraill. Cytunodd i ddarparu copi o adroddiad a gyflwynwyd i'r Grŵp Cydlyn Strategol i'r aelodau, yn ymwneud â data ar nifer yr achosion Covid-19 sydd wedi'u cadarnhau, nifer y marwolaethau o Covid-19 a nifer y profion sy'n cael eu cynnal. Roedd yn ymwybodol o'r canfyddiad bod achosion yn cynyddu yn y Gorllewin a nododd er mai dyma'r achos, roedd y nifer yn awr yn dechrau lefelu i ffwrdd ac yn parhau yn is na niferoedd ar gyfer Ardal y Canol a'r Dwyrain. Nodwyd bod y problemau gyda Chyfarpar Amddiffyn Personol (PPE) yn cael eu rheoli, ac mae gwaith i fynd i'r afael â phryderon mewn cartrefi gofal yn parhau. 20/49.2 O ran y gwaith modelu, nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol nad oedd yn cyd-fynd yn llawn eto a bydd angen ei ymgorffori i brosesau cynllunio'r sefydliad wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddgol bod y ffrwd gwaith Llwybrau Clinigol yn awyddus i weld hyn yn datblygu gan ei fod yn effeithio ar nifer o ragdybiaethau. Myfyriodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y modelu'n ddibynnol iawn ar unrhyw lacio neu ymestyn y trefniadau ymbellhau cymdeithasol a threfniadau'r gwaharddiad ar symudiadau. Gofynnodd Cynghorydd y Bwrdd am amrywiaeth rhanbarthol ac is-ranbarthol a nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus, y lleiaf yw'r niferoedd, mae'r data'n llai defnyddiol ac felly mae PBC yn parhau i ddefnyddio'r ffigwr "R" Cymru fel y meincnod tra'n parhau i fod yn ymwybodol o'r angen i adlewyrchu gwahaniaeth lleol. Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at ddata sy'n awgrymu fod gan Gymru gyfradd llawer uwch o'r haint fesul 100,000 y boblogaeth. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus fod hyn o ganlyniad i faint, enwaduron a gwahaniaethau mewn dulliau profi. Fe awgrymodd i aelodau adolygu'r data ar ddangosfwrdd lechyd Cyhoeddus Cymru gan y teimlai y byddai hyn yn cynyddu hyder. Ymgwymerodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Cyllid â'r dasg o drefnu mynediad at ddangosfwrdd gwybodaeth ar Covid-19 i'r aelodau. 20/49.3 Cododd yr Is-Gadeirydd y mater o gynnal gwasanaethau hanfodol ac er ei bod yn derbyn y cymhlethdod, teimla fod angen mapio llwybrau Covid a llwybrau nad ydynt yn Covid, gan fod egluro pam fod cleifion yn aros am sganiau a phroffion gwaed yn heriol, er enghraifft pan roedd capasiti yn y sefydliad. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau lechyd ar gyfer endosgopi, yn enwedig, dylai capasiti gynyddu dros yr wythnosau nesaf, ond roedd yr angen i ddiheintio ystafelloedd triniaeth rhwng cleifion yn effeithio ar nifer y cleifion y gellir eu gweld. Mae gwaith yn parhau gyda thimau sgan CT a radioleg ar opsiynau eraill i endosgopi. Teimla'r Prif Weithredwr Dros Dro fod angen i adrodd ar berfformiad ddatblygu er mwyn ymdrin â materion Covid a'r rhai nad ydynt yn ymwneud â Covid. Cytunodd y Cadeirydd. 20/49.4 Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r cyfleuster profi yng Ngogledd Cymru, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus bod hyn yn awr yn weithredol yn Ysbyty Glan Clwyd, fodd bynnag, nid oedd y niferoedd mor uchel â'r disgwyl. Cyfeiriodd y Cadeirydd at sgwrs gysylltiedig ar alwad Prif Weithredwyr a Chadeiryddion Cymru Gyfan yn ddiweddar a p'un a oedd cyfle i ailddosbarthu adweithredydd. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus ei bod hi wedi codi'r un mater ond y problem oedd bod gwahanol becynnau a gweithredwyr yn cael eu	SG SH TO
---	-------------------------------

defnyddio ar draws gwahanol rannau o Gymru. Fe gynigiodd rannu'r ohebiaeth gysylltiedig gyda'r aelodau. Nododd y Cadeirydd fod Arweinwyr y Cyngor yn awyddus i weld cynnydd gyda phrofion cymuned a'u bod yn cynnal eu pryderon dros brofi mewn cartrefi gofal. Gofynnodd i'r meini prawf gael ei egluro i'r Arweinwyr. Derbyniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus bod heriau sylweddol o'n blaenau gyda phrofi, fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd i'r Bwrdd fod gan y sefydliad ddigon o gapasiti i brofi ar hyn o bryd ond byddai hyn yn dod yn anoddach wrth i ddychwelyd i fusnes fel yr arfer ddigwydd. 20/49.5 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi rhannu ychydig o wybodaeth o amgylch data derbyniadau Ysbyty Cyffredinol Dosbarth ac mae cwestiynau wedi cael eu gofyn ynghylch cyfradd llenwi Ysbyty Glan Clwyd, ac y byddai ymateb gan Dîm Rheoli'r Ysbyty'n ddefnyddiol i aelodau ddeall y sefyllfa'n well. Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd fod amddifadedd a demograffeg Cymru yn effeithio cymunedau ac yn cael sgil effaith ar dderbyniadau ysbyty. 20/49.6 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cefnogaeth ehangach i gartrefi gofal, nododd y Cyfarwyddwr Ardal (Gorllewin) bod sgysiau dyddiol yn cael eu cynnal gyda Thimau Gofal yr Henoed ac Adnoddau Cymunedol, gan weithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i ddynodi mannau sydd â phroblem gyda'r nod o osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Nododd Aelod Cyswllt y Bwrdd (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) fod rhannu gwybodaeth yn allweddol i sicrhau y gellir bwrw ymlaen yn adeiladol â'r heriau sy'n wynebu gofal preswyl gyda phartneriaid. 20/49.7 O ran y gweithlu, nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol fod gwaith sylweddol yn mynd rhagddo. Amlygodd mai'r nod oedd cadw'r staff ychwanegol a oedd wedi'u recriwtio a'u hadleoli ble bo angen. Nododd hefyd yr angen i fod yn ystyriol o effaith 'profi, tracio ac olrhain' ar y gweithlu o ran nifer y staff a allai orfod ynysu o ganlyniad i'r broses. Dywedodd hefyd fod y defnydd o ganolfannau iechyd a lles wedi bod yn dda. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod Annibynnol, cadarnhaodd fod profi ac olrhain staff asiantaeth yn cael ei reoli o fewn y Bwrdd Iechyd.	TO
20/50 Cynnal Llywodraethu Covid-19 20/50.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y papur a oedd wedi'i ddiweddarau ers iddo gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill ac roedd hefyd yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer y Cabinet. Nododd y bydd angen ei adnewyddu ymhellach unwaith y cadarnheir y trefniadau llywodraethu sy'n weddill. 20/50.2 Nododd Cadeirydd yr SRG fod y Grŵp Cynghori i fod i gyfarfod ym mis Mehefin ac y byddai'n croesawu unrhyw lywio ar yr hyn y gallai'r SRG ganolbwyntio'n ddefnyddiol arno ar hyn o bryd o ran darparu cyngor i'r Bwrdd. Awgrymodd Aelod Annibynnol bod ail ymgysylltu'n ffurfiol â rhanddeiliaid yn bwysig ar yr adeg hon. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd bod sgysiau'n cael eu cynnal ynghylch cyfarfod nesaf y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd (HPF). Cadarnhaodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd fod dyddiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori ym mis Mehefin i barhau, fodd bynnag, y Cadeirydd a'r Swyddog Arweiniol fydd yn penderfynu a yw'r cyfarfod yn angenrheidiol yn dilyn adolygiad o'r busnes a gynlluniwyd. Dymuna dynnu sylw at pe bai'r holl gyfarfodydd sydd wedi'u trefnu	

yn mynd ymlaen yna byddai hyn yn cael effaith ar allu Gweithredwyr, swyddogion, aelodau a chefnogaeth ysgrifenyddol, gan fod strwythurau ychwanegol Covid hefyd yn cael eu cefnogi. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid lleihau'r gofynion i baratoi papurau. Ychwanegodd y Cadeirydd y dylai cyfarfodydd fod yn fyr ac wedi'u diffinio a gall presenoldeb Gweithredwyr fod ar sail "fel bo angen". 20/50.3 Cyfeiriodd Aelod Annibynnol at gyflwyniad y papur a oedd yn manylu pa sicrwydd dylai'r Bwrdd fod yn ei gael, a mynegodd amheuaeth bod hyn yn cael sylw llawn. Nododd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd bod arweiniad gan Lywodraeth Cymru wedi dod i law yn yr wythnos ddiwethaf ac yn awr yn cael ei groeswrio gydag archwilwyr y Bwrdd ac eraill i bennu pa drefniadau llywodraethu sydd angen bod ar waith a map llwybr ar gyfer materion. Ychwanegodd yr Aelod Annibynnol ei bod yn teimlo y dylai gwasanaethau hanfodol fod yn eitem sefydlog ar gyfer y Bwrdd. Awgrymodd y Cadeirydd fod hyn yn cael ei roi ar yr agenda nesaf er mwyn ystyried sut y gellir ei drefnu'n briodol wrth symud ymlaen. 20/50.4 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd: 1. Nodi'r adroddiad cyfredol 2. Cymeradwyo'r amrywiad ychwanegol i'r Rheolau Sefydlog 3. Nodi dull diwygiedig parhaus y Bwrdd o ran gwneud penderfyniadau 4. Nodi'r dull diwygiedig parhaus i gyfarfodydd cyhoeddus 5. Cymeradwyo Cylch Gorchwyl Cabinet Covid-19	DS
20/51 Adroddiad Cyllid Mis 12 20/51.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid yr adroddiad a oedd yn rhoi nodyn briffio ar berfformiad ariannol drafft heb ei archwilio am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020, a chadarnhaodd fod y cyfrifon drafft terfynol wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 7 Mai 2020. Tynnodd sylw aelodau at y gofyniad i'r Bwrdd lechyd ddirprwyo awdurdod i gymeradwyo'r cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio a fyddai'n cyfarfod ar 29 Mehefin 2020. Tynnodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro sylw at gynnydd mewn gwariant o £31.6m oherwydd effaith costau blwydd-daliadau a oedd wedi'u talu gan Lywodraeth Cymru ar ran y Bwrdd lechyd, a bod diffyg rhagolygol wedi'i ddiwygio o £41m yn cael ei adrodd erbyn hyn. Adroddwyd hefyd mai gorvariant o £39.2m gyda materion sylweddol i'w hystyried yn ymwneud â thanwariant gyferbyn â Chyfeirio at Driniaeth (RTT) a mantoli gwariant ar Covid oedd sefyllfa ddrafft heb ei harchwilio'r Bwrdd lechyd. Tynnwyd sylw aelodau at gyfanswm gwerth cynlluniau arbedion a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn o £35.6m gan sicrhau arbedion rhyddhau arian parod o £33.2m gyferbyn â chynllun o £35.0m sy'n arwain at ddiffyg o £1.8m. Roedd Atodiad 1 yn dangos crynodeb o berfformiad ariannol a thynnwyd sylw bod manylion am wariant RTT i'w cael yn Atodiad 2. 20/51.2 Roedd Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn awyddus i weld pa ddysgu fyddai'n cael ei roi ar waith yn y dyfodol o ran sicrhau arbedion a chyflwyno'r cyfanswm rheoli yn 2020-21. Derbyniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid, er bod arbedion trafodaethol gwerthfawr wedi'u gwneud, bod angen cyflwyno mwy o arbedion trawsffurfiannol ac i droi cynlluniau'n gynlluniau rhyddhau arian parod. Nododd Aelod Annibynnol siom, er gwaethaf y ffocws a chymorth allanol ar gyllid yn 2019-20, fod	

cynlluniau'n dal i fod yn ddiffygiol. Cytunodd Aelod Annibynnol arall ac awgrymodd ei bod yn anodd gweld bod y Bwrdd wedi bod mewn sefyllfa well o gwbl ym Mis 10 o gymharu â blynyddoedd blaenorol, o ystyried yr holl gymorth yr oedd wedi'i gael. Cydnabu'r Cadeirydd y lefel sylweddol o arbedion a oedd wedi'u cyflawni ac y gallai'r sefyllfa fod wedi bod yn waeth o lawer, ond, cytunodd fod y cyflymdra o ran cyflawni arbedion yn allweddol ac y byddai hyn yn oed yn fwy heriol o'i fantoli gyda gwaith Covid. Cytunwyd y byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid yn ystyried ac yn cynghori pryd y gallai'r rhaglen arbedion ailddechrau a sut y gallai fanteisio ar gyfleoedd i newid gwasanaethau a oedd wedi codi yn ystod yr ymateb i Covid-19. 20/51.3 Teimlai Aelod Annibynnol fod gwersi i'w dysgu o brofiad Covid o ran sut bu angen cyflwyno gwasanaethau yn sefyllfa'r pandemig, ac y gallai'r ymagwedd hon ganiatáu trawsnewid. 20/51.4 Teimlai'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ei bod yn amserol ailsefydlu ystyriaethau'r Bwrdd ynghylch strategaeth gwasanaethau clinigol a bod amgylchedd da ar hyn o bryd o ran ymgysylltu a chymorth clinigol. 20/51.5 Awgrymodd Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) fod gan aelodau gyfrifoldeb i ailbwysleisio ac i atgyfnerthu'r angen i yrru cynlluniau yn eu blaen a fyddai'n trawsnewid gwasanaethau ac yn arwain at arbedion. Roedd yn pryderu ynghylch costau asiantaethau ac y dylid adnewyddu'r mentrau presennol i fynd i'r afael â hyn cyn gynted â phosibl. Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid fod rheolyddion yn cael eu canfod a fyddai'n ategu at leihau costau o bosibl ond bod nifer o benderfyniadau cenedlaethol a fyddai'n effeithio ar y maes hwn. Cyflwynodd Cadeirydd y SRG gwestiwn ysgrifenedig hefyd yn ymwneud â chostau blwydd-daliadau a phensiynau a fyddai'n cael ei ateb y tu allan i'r cyfarfod. 20/51.6 Cododd Aelod Annibynnol y mater p'un a ellid gwneud arbedion posibl o ran rhesymoli ystadau PBC a defnyddio mannau swyddfa'n wahanol, gan ddysgu o sut roedd yr opsiwn i weithio o gartref wedi'i ddefnyddio yn ystod pandemig Covid. Derbyniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y gallai rhai agweddau gael eu normaleiddio'n hawdd wrth i'r Bwrdd ddychwelyd i fusnes arferol, ond, gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol atgoffa'r Bwrdd y byddai cyfrifoldebau cysylltiedig o ran cynnal ymbellhau cymdeithasol wrth i staff ddychwelyd i'r gwaith. 20/51.7 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd wneud y canlynol: 1. Nodi'r adroddiad. 2. Dirprwyo awdurdod i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol wedi'i harchwilio a ffurflenni at y Pwyllgor Archwilio yn eu cyfarfodd ar 29 Mehefin 2020.	SH
20/52 Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad (IQPR) 20/52.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yr adroddiad cryno a ddarparodd ddata am ddangosyddion perfformiad allweddol diwedd y flwyddyn heb adroddiadau eithrio. Nododd sefyllfa a oedd yn gwaethgu o ran gofal cleifion - er enghraifft, o ran RTT a mynediad at ddiagnosteg - ac awgrymodd fod hyn yn bennaf oherwydd sefyllfa'r pandemig. <i>[Gadawodd Miss T Owen y cyfarfod]</i> Cadarnhaodd	MW

Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod fformat diwygiedig ar gyfer IQPR yn cael ei ddatblygu gyda'r nod o'i gyflwyno gerbron y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin. 20/52.2 Soniodd yr Is-gadeirydd, heb elfen naratif yr adroddiad, ei bod yn anodd dehongli'r ffigurau'n llawn a mynegodd bryder penodol ynghylch lefelau heintio sydd wedi bod yn cynyddu er gwaethaf y ffocws ychwanegol yn y maes hwn hyd yn oed cyn Covid. Cyfeiriodd hefyd at drafodaeth yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) ym mis Mai 2020 a bod materion yn ymwneud ag ystadau'n atal glanhau Ward benodol i'r safon ofynnol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod y mater wedi'i uwchraddio ac y byddai'r Tîm Rheoli Ysbyty perthnasol yn adrodd yn ôl wrth Gadeirydd y QSE. Ychwanegodd fod gwaith hefyd yn cael ei wneud i ganfod heintiau "anochel". Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd hefyd at ofal strôc ac effaith materion thrombotig yr oedd yn codi erbyn hyn o ganlyniad i Covid ac a allai arwain at ddirywiad pellach o ran y gwasanaeth. Ymrwymodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad i fynd ati i edrych ar dueddiadau anffafriol o ran strôc ac atal heintiau yn benodol ar gyfer yr adroddiad nesaf. Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cadeirydd, ymrwymodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad i weld pa bryd a ellid cylchredeg adroddiad perfformiad mis Ebrill. 20/52.3 Gofynnodd yr Is-gadeirydd y dylai'r gwaith dysgu ac adfer sy'n codi o'r pandemig ymgorffori dysgu o'r presenoldeb is mewn Adrannau Achosion Brys. Awgrymodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y byddai rhesymau amrywiol am y presenoldeb is ond cytunodd y dylid ystyried sut y gellid ymgorffori dysgu i ffyrdd newydd o weithio. 20/52.4 Amlygodd Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd ymdrechion timau diagnosteg gan fod lleihad wedi bod yn y niferoedd a oedd am aros am endosgopi o 2500 ym mis Awst 2019 i ryw 450 erbyn diwedd mis Mawrth 2020. Cododd Aelod Annibynnol bryderon hefyd ynghylch perfformiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a Phlant sy'n Derbyn Gofal, a dywedodd ei bod wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd gydag arweinydd y gwasanaeth. 20/52.5 Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'r adroddiad.	MW MW
20/53 Cofrestr Risg Gorfforaethol 20/53.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr eitem hon ar yr agenda ond gan gydnabod bod rheoli risg yn destun sgysiau parhaus a dywedodd nad oedd yn teimlo bod yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd, yn rhoi'r lefel o sicrwydd angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r Bwrdd ystyried yr argymhellion fel y'i nodwyd. Nododd fod camu i lawr o ran Pwyllgorau wedi peri oedi a heriau i sicrhau bod risgiau'n cael eu diweddarau, eu craffu a'u cymeradwyo ond bod y Tîm Gweithredol wedi ymrwymo erbyn hyn i adolygu pob risg yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Yn ail, tynnodd sylw at y ffaith bod y penderfyniad i ddiraddio'r risg cartrefi gofal a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn wedi'i ddisodli gan benderfyniad gorchymyn Aur ond nad oedd hyn wedi'i adlewyrchu yn y papur.	

20/53.2 Gwnaeth yr Is-gadeirydd ystod o sylwadau. O safbwynt sicrwydd, cadarnhaodd fod sgwrs wedi'i chynnal rhyngddi hi, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro, Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Sicrhau Ansawdd a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Sicrwydd mewn perthynas â rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â Covid. Cafodd sicrwydd fod gwaith yn cael ei wneud yn hyn o beth nad oedd yn cael ei adlewyrchu yn y papur. Yn ail, esboniodd fod y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i'r gofrestr risg gael ei glanhau yn hytrach na'r Pwyllgor QSE fel y'i nodwyd yn y papur. Yn olaf, teimlai fod y papur yn awgrymu bod y Grŵp Rheoli Risg wedi gwrthdroi penderfyniad y Pwyllgor QSE yn ymwneud â sgorio risgiau ac nad oedd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa. Cadarnhaodd fod y pwynt hwn yn ymwneud â risgiau iechyd a diogelwch a'i fod wedi'i adolygu mewn gwirionedd gan y Pwyllgor QSE. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn awyddus i gefnogi'r sylwadau a wnaed gan yr Is-gadeirydd ac ychwanegodd fod problem i'w datrys, yn ei farn ef, ynghylch y gydberthynas rhwng y Pwyllgor QSE a'r Grŵp Rheoli Risg.	
20/53.3 Croesawodd y Cadeirydd y sylwadau ond roedd yn pryderu pam yr oedd y papur wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd ar ei ffurf bresennol os nad oedd y Tîm Gweithredol yn teimlo ei fod yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i aelodau. Gofynnodd p'un a ellid ailedrych ar y dull cymeradwyo papurau ac y byddai'n mynd ar drywydd hyn gydag Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro.	DS
20/53.4 Penderfynwyd y byddai'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei diweddaru a'i chyflwyno o'r newydd i gyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin.	GH
20/54 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) 20/54.1 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn cadarnhau'r rhestr o ychwanegiadau a phethau a ddilëwyd ar Gofrestr Cymru Gyfan o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru a Chofrestr Cymru Gyfan o Glinigwyr Cymeradwy.	
20/55 Gwasanaethau Fasgwlaidd Eitem wedi'i gohirio tan y cyfarfod eithriadol o'r Bwrdd ar 21 Mai 2020	
20/56 Dogfennau a ddosbarthwyd yn flaenorol er gwybodaeth Nodwyd.	
20/57 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf Byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd Iechyd yn cael ei gynnal ddydd Iau 21 Mai 2020 am 2.30pm	

20/58 Heb y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd bod cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i fuddiant y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.'